



Enw'r Polisi: Polisi ar Gyflogaeth Cyfnod Penodol a Staff a Gyflogir ar Ffrydiau Ariannu Cyfnod Penodol	Rhif y Polisi : P1415-507
Perchennog y polisi: Sally Davies	
Dyddiad Cyhoeddi/Adolygu Mai 2014	
Deddfwriaeth Berthnasol/Arweiniad ACAS os yw'n berthnasol: Rheoliadau Cyflogeion Cyfnod Penodol (Atal Triniaeth Lai Ffafirol) 2002, sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Cyflogaeth 2002 ac Arweiniad JNCHES ar Gyflogaeth Cyfnod Penodol ac Achlysurol.	
Dogfennau sy'n cael eu disodli Polisi ar gyflogaeth cyfnod penodol a staff a gyflogir ar ffrydiau ariannu cyfnod penodol - Medi 2011	
<p>Datganiad Polisi</p> <p>Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl weithwyr cyfnod penodol a staff a gyflogir ar ffrydiau ariannu cyfnod penodol heblaw am y rhai a benodir am gyfnodau byr iawn (3 mis neu lai fel arfer). Bydd hyn yn cynnwys pob math o swydd a holl raddau staff.</p> <p>Bwriad y Brifysgol yw sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng gweithio hyblyg, effeithlonrwydd y sefydliad, triniaeth deg a chyflogaeth ddiogel. Mae'r Brifysgol yn dibynnu ar amrywiaeth o ffynonellau cyllid, y mae rhai ohonynt yn newidiol ac am gyfnod penodol, felly mae angen i ni fanteisio i'r eithaf ar drefniadau gweithio modern a hyblyg a mabwysiadu patrymau gwaith a fydd yn ymateb i heriau'r dyfodol. Yr un mor bwysig yw bod yr holl aelodau staff, ym mhob grŵp galwedigaethol, yn cael eu trin yn deg ac yn cael cynnig cyfleoedd i ddilyn a datblygu eu gyrfaedd.</p> <p>Caiff yr egwyddorion canlynol eu mabwysiadu mewn perthynas â defnyddio contractau cyfnod penodol:</p> <ul style="list-style-type: none">a) Adlewyrchir cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar gyflogaeth. Dylid dyrannu staff i gontractau cyfnod penodol ar sail ddiuedd o ran rhyw a hil, a heb wahaniaethu ar sail anabled neu oedran. Caiff hyn ei sicrhau drwy fonitro.b) Contractau cyfnod amhenodol yw'r berthynas ddisgwyliedig rhwng cyflogwr a chyflogai,c) Lle bynnag y bo modd, dylai Penaethiaid Coleg ystyried ymgorffori ffrydiau ariannu allanol yn eu Cynlluniau Busnes gyda'r nod o ddiogelu cyflogaeth staff a gyflogir ar ffrydiau ariannu cyfnod penodol.ch) Ni phenodir staff am gyfnodau cyflogaeth byr iawn oni bai bod angen gwneud hyn oherwydd salwch, absenoldeb rhiant neu brosiectau a ariennir	

am gyfnod byr. Yn benodol, ni ddylid cyflogi aelod staff ar gyfres o gontractau cyfnod byr heblaw am amgylchiadau eithriadol lle bo hyn er lles penodol y cyflogai dan sylw neu mae'n angenrheidiol oherwydd gofynion busnes. Hynny yw, mewn sefyllfa lle byddai'r contract yn dod i ben o beidio â gwneud hyn (e.e. bylchau mewn cyllid ymchwil, cyflenwi yn ystod salwch neu absenoldeb rhiant sy'n parhau.)

d) Ni ddylai staff gael eu cyflogi ar gontractau cyfnod penodol oni ellir cyfiawnhau hyn am resymau tryloyw a gwrthrychol. Pan wneir hyn, bydd staff ar y contractau hyn yn cael:

- cyfle cymharol â staff arall i ddatblygu perfformiad a rhagolygon gyrfa drwy ddatblygiad staff, hyfforddiant ac adolygiad datblygiad proffesiynol;
- gwybodaeth am swyddi mwy parhaol a'r cyfle i ymgeisio amdanynt;
- adolygiad i ystyried cyflogaeth amhenodol ar adegau priodol, ar unrhyw adeg neu ar gais y cyflogai neu Bennaeth y Coleg/Adran;
- eu trosglwyddo i gontract amhenodol os byddai adnewyddu eu contract yn golygu y byddent yn y swydd am fwy na phedair blynedd oni bai bod y contract yn cael ei adnewyddu am bum mis neu lai at ddibenion pontio neu am reswm sydd er lles y cyflogai fel y nodwyd o dan (ch) uchod. Mae trosglwyddo staff o gontractau cyfnod penodol i gontractau amhenodol yn cynnig buddion i'r Brifysgol ac i ddatblygiad gyrfa tymor hir staff. Bydd cyflogaeth amhenodol ar gael i aelodau staff sydd ar gontractau cyfnod penodol ar hyn o bryd, lle bo amgylchiadau'n caniatáu hyn, fel y manylir yn y polisiau sy'n ategu'r polisi hwn.

dd) Mae'n bosib y bydd anghenion arbennig gan staff a gyflogir ar gontractau cyfnod penodol neu ar ffrydiau ariannu cyfnod penodol mewn perthynas â'u contractau tymor byr (e.e. cyngor ar yrfaeodd i staff sydd newydd ddechrau gyrfa ymchwil). Mae cyfleusterau ar gael i ddiwallu'r anghenion hyn ac mae'r Brifysgol yn ymrwymo i gefnogi'r anghenion hyn.

Diffiniadau termau Adnoddau Dynol a ddefnyddir yn y polisi hwn:

Gellir diffinio staff cyfnod penodol fel a ganlyn: staff a gyflogir ar brosiect penodol neu mewn rôl benodol sydd â dyddiad terfyn diffiniedig.

Gellir diffinio staff ar ffrydiau ariannu cyfnod penodol fel a ganlyn: staff a gyflogir ar gontract amhenodol ond sy'n cael eu cyflogi i weithio ar brosiect penodol â dyddiad terfyn penodol neu â chyllid am gyfnod penodol; neu mewn rôl a ariennir gan gorff allanol ac nid oes gwarant y bydd y cyllid yn parhau.

Gweithdrefnau Ategol/Dogfennau Arweiniad/Codau Ymarfer - â rhifau P a dolenni:
Gweithdrefn ar gyfer cyflogi staff ar Gontractau Cyfnod Penodol a Ffrydiau Ariannu Cyfnod Penodol